



Deddf Tiroedd Comin 2006

Adran 22:

Cofrestriad anghywir dan Ddeddf 1965

Atodlen 2(7)

Tir wedi'i gofrestru'n anghywir fel Tir Comin

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod cais wedi ei wneud gan Mr a Mrs Williams i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin, ynglŷn â thir yn Fferm Llys y Gwynt, Llanfairfechan a ddisgrifir mewn rhagor o fanylder isod.

Dyma grynodeb o effaith y cais: Roedd y tir wedi'i gofrestru dros dro fel tir comin dan Adran 4 o Ddeddf 1965; ni chafodd cofrestriad dros dro y tir fel tir comin ei gyfeirio at Gomisiynydd Tir Comin dan Adran 5 Deddf 1965; daeth y cofrestriad dros dro yn derfynol; yn syth cyn y cofrestriad dros dro, nid oedd y tir yn unrhyw un o'r canlynol: tir sy'n destun hawliau comin; tir diffaith maenor; maes y dref neu bentref yn ystyr Deddf 1965 fel y cafodd ei gyhoeddi'n wreiddiol; neu dir o ddisgrifiad a nodir yn Adran 11 y Ddeddf Cau Tiroedd Comin 1856(c.118).

Os cymeradwyir y cais yn ei gyfanwydd neu'n rhannol bydd yr awdurdod cofrestru yn tynnu'r tir oddi ar y gofrestr tiroedd comin.

Sylwadau:

- Mae'n rhaid dyfynnu rhif y cais, sef: 001-21-22
- Mae'n rhaid i unigolion sy'n cyflwyno sylwadau nodi eu henwau a'u cyfeiriadau post, yn ogystal â natur eu diddordeb yn y tir dan sylw (os o gwbl), gellir hefyd nodi cyfeiriad e-bost;
- Mae'n rhaid i'r person sy'n cyflwyno'r sylwadau eu llofnodi (oni bai eu bod yn cael eu hanfon yn electronig)
- Mae'n rhaid nodi pam y gwneir y sylwadau; ac
- Mae'n rhaid eu hanfon at: Y Swyddfa Cofrestru Tiroedd Comin, Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Blwch Post 1, Conwy LL30 9GN neu trwy e-bost at commonsandgreens@conwy.gov.uk

Ni ellir trin sylwadau yn gyfrinachol. Pan gaiff cais ei gyfeirio at yr Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer penderfyniad, caiff unrhyw sylwadau eu hanfon i'r Arolygiaeth Gynllunio.

Ar gyfer Hysbysiad Preifatrwydd, gweler: <http://www.conwy.gov.uk/en/Council/Access-to-Information/Privacy-Notices/How-Conwy-County-Borough-Council-uses-your-Information.aspx>

Y dyddiad olaf i gyflwyno sylwadau yw : 15fed Mehefin 2021

Mae dogfennau sy'n ymwneud â'r cais ar gael i'w gweld, ffoniwch (01492) 576095. Mae'r hysbysiad a'r cynllun cysylltiedig hefyd ar gael i'w gweld ar wefan Cyngor Conwy ar y dudalen Tiroedd Comin

<https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Planning-Building-Control-and-Conservation/Local-Land-Charges/Common-Land-and-Village-Greens/Legal-Notices-for-Amendment-to-Common-Land-and-Village-Greens.aspx>

Dyddiedig: 23ain Ebrill 2021

Llofnod: Peter Brown, Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai

Disgrifiad o'r tir dan sylw:

Tir yn Llys y Gwynt, Llanfairfechan – caeuau 455 a 455A – wedi'u marcio A ar y cynllun isod

SH 6872 4469

